# ATODIAD 7

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

## YMCHWILIAD ANSAWDD ADDYSG

## CRYNODEB O BRIF GANFYDDIADAU CLYWED WRTH HOLI'R DISGYBLION

Holodd **CLYWED,** (Cartref Bontnewydd)**,** Blwyddyn 11 y 6 ysgol oedd yn rhan o'r ymchwiliad i ansawdd addysg ac eithrio Ysgol Eifionydd.

Am wahanol resymau doedd hi ddim yn bosibl trefnu i holi Blwyddyn 11 Ysgol Eifionydd, ac fe holwyd disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol y Berwyn yn eu lle. Mae Ysgol y Berwyn mewn categori tebyg i Ysgol Eifionydd, sef ysgol sydd yn dangos gwelliant, felly mae'n annhebygol fod hyn wedi amharu mewn unrhyw ffordd ar y casgliadau.

Gofynnwyd yr un cwestiynau i ddisgyblion y 6 ysgol, er mwyn sicrhau cysondeb yn yr holi.

**<u>PRIF GANFYDDIADAU</u>**

**Beth sy'n gwneud addysg dda?**

- Athrawon da.  Athrawon da fel arfer yn gwrando, yn drefnus ac yn cynnal diddordeb a brwdfrydedd
- Cysondeb o ran athrawon
- Maint ysgol  - ysgol heb fod yn rhy fawr yn fanteisiol ac yn hybu adnabyddiaeth rhwng yr athrawon a'r disgyblion
- Cael chweched dosbarth yn fuddiol i'r ysgol
- Ysgol hapus – mwy na dim ond addysg ffurfiol.
- Trefn yn y dosbarth – peidio eistedd gyda ffrindiau yn arwain at well canolbwyntio
- Ysgol drefnus gyda gweithdrefnau mewn lle er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn cyflawni
- Gwersi a chlybiau ar ôl ysgol o gymorth i godi safonau

- Parch rhwng athrawon a disgyblion

**Beth sy'n effeithio ar ansawdd addysg?**

- Athrawon sydd bron ag ymddeol fel arfer yn tanberfformio ac wedi colli diddordeb yn eu pwnc

- Marcio gwaith yn rhy hael gan rai athrawon. Darganfod wedyn yn rhy hwyr fod y gwir safon cyrhaeddiad ddim yn ddigon da ar gyfer TGAU

- Perfformiad rhai adrannau gwael yn arwain at wersi preifat sydd yn golygu gwell canlyniadau nag y mae safon addysg yn yr ysgol yn ei haeddu

- Athrawon yn dysgu pwnc gwahanol i'w pwnc craidd

- Anoddach i ysgol wael gadw ei hathrawon da – cylch dieflig

- Gwersi ychwanegol ar ôl ysgol yn medru bod yn beth da, ond os yw'r athro yn un gwael beth bynnag, rhoi gwersi ychwanegol ddim o anghenraid yn golygu eu bod o fudd

**Mathemateg**

- Mathemateg yn bwnc anodd
- Angen mwy o bwyslais ar yr egwyddorion sylfaenol
- Rhaid deall yr egwyddorion sylfaenol neu bydd yna fyth ddealltwriaeth
- Mathemateg yn cael ei ddysgu'n ddiflas
- Angen ffrwdlifo Mathemateg mewn pynciau erial
- Deall gwerth Mathemateg yn y byd go iawn a'i wneud yn fwy ymarferol
- Ofn gofyn am gymorth a dweud nad yn deall
- Treulio mwy o amser yn dysgu Mathemateg yn beth da.
- Gwella sgiliau Mathemateg yn y Cynradd
- Gormod o newid mewn athrawon yn arwain at ddulliau dysgu gwahanol a chymhlethdod
- Gallu disgyblion yn medru amrywio'n fawr mewn dosbarth. Angen i'r athrawon ddeall hyn a theilwra'r gwersi at amrediad gallu'r disgyblion

## CASGLIAD

Nid yw holi'r disgyblion wedi dod a chasgliadau sydd yn sylfaenol wahanol i'r hyn y mae'r ymchwiliad wedi ei ddysgu yn barod drwy holi Penaethiaid, Rhieni-lywodraethwyr ac arbenigwyr yn y maes.